# ROBERTS, ROBERT DAVID (1820 - 1893), gweinidog gyda'r Bedyddwyr



**Enw:** Robert David Roberts
**Dyddiad geni:** 1820
**Dyddiad marw:** 1893
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Tom Ellis Jones

Ganwyd 3 Tachwedd 1820 mewn ty gerllaw hen gapel Sardis, Dinorwig. Yr oedd ef a'r ' Hen Gloddiwr ' (John Jones, 1821 - 1879; gweler Spinther, iv, 327-9) yn gefndyr. Ni chafodd fawr addysg pan yn blentyn, nac ychwaith addysg athrofaol wedi dechrau ohono bregethu. Bedyddiwyd ef yn 12 oed a dechreuoddodd bregethu yn 1839. Aeth am gyfnod byr yn genhadwr dros gyfarfod misol Arfon i hen faes Christmas Evans yn Ll n, ond dychwelodd i Sardis lle yr ordeiniwyd ef a'r ' Hen Gloddiwr ' i gyflawn waith y weinidogaeth yn 1844. Cydweinidogaethai'r ddau i'r eglwysi cylchynol am rai blynyddoedd. Symudodd R. D. Roberts i Bontllyfni a Llanaelhaearn yn nechrau 1848, ond cyn diwedd y flwyddyn honno yr oedd wedi ymsefydlu yn Llanfachraeth a Llanddeusant, Môn. Symudodd drachefn i Tabernacl, Merthyr, yn 1854, ac i Soar, Llwynhendy, yn 1862, ac fel ' Roberts Llwynhendy ' yr aeth yn enwog. Bu yno am chwarter canrif cyn ymddeol yn 1887. Bu farw 15 Mai 1893. Etholwyd ef yn llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru y flwyddyn y bu farw. Ef yw awdur cofiant H. W. Jones, Caerfyrddin, ac ysgrifennodd ei atgofion i *Greal* 1889-92. Eithr fel un o bregethwyr huotlaf y genedl y cofir amdano. Yr oedd ei enw yn enw teuluaidd trwy'r wlad, ac ystyrid ef yn un o'r areithwyr gorau a gafodd y genedl.

## Awdur

**Y Parchedig Brifathro Tom Ellis Jones**, (1900 - 1975)

## Ffynonellau


J. Rhys Morgan ('Lleurwg'), *Cofiant y diweddar Barch. R. D. Roberts, Llwynhendy: gyda darlun a dwy o'i brif bregethau* (Llanelli 1893)

D. Hopkin, *Cofiant y Parchedig Robert David Roberts*

'Atgofion yr Hen Gloddiwr,' yn *Y Greal sef Cylchgrawn Misol at wasanaeth y Bedyddwyr*, 1879

'Atgofion R. D. Roberts,' yn *Y Greal sef Cylchgrawn Misol at wasanaeth y Bedyddwyr*, 1889-92

*Seren Gomer*, Gorffennaf 1893

*Y Geninen*, Hydref 1893

*Cymru (O.M.E.)*, vii, 141

*Baptist Handbook*, 1894

*Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru*, iv, 327

## Gweithiau

R. D. Roberts, *Bywgraffiad i'r diweddar Barch. H.W. Jones, Tabernacl, Caerfyrddin* (Llanelli 1876)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734316

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu